Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

Dysgu Gydol Oes yn y DU
Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ymateb i'r *Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng Nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*

31 Mawrth 2007

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Michelle Sayers
Rheolwr Cenedlaethol, Cymru
Dysgu Gydol Oes yn y DU
Swyddfa: 0870 7564974
Symudol: 07921 291339
E-bost: Michellesayers@lifelonglearninguk.org

skills FOR BUSINESS

Dysgu Gydol Oes yn y DU

Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) yw'r Cyngor Sgiliau Sector annibynnol a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynrychioli'r Sector Dysgu Gydol Oes.

Ein prif nodau yw:

- lleihau bylchau a phrinderau sgiliau
- gwella cynhyrchedd, perfformiad busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchedd pawb yng ngweithlu'r sector
- gwella'r cyflenwad dysgu

Mae LLUK yn darparu'r safbwynt strategol ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu i'r sector ar draws pedair gwlad y DU.

Rydym yn cynnwys y cyflogwyr hynny y mae eu busnes pennaf yn ymdrin â chyflwyno neu gefnogi dysgu i oedolion a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- addysg bellach;
- addysg uwch;
- dysgu seiliedig ar waith a darparwyr hyfforddiant preifat;
- llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth;
- dysgu a datblygu cymunedol – sy'n cynnwys ymhellach:
    - datblygiad cymunedol
    - gweithio gyda rhieni
    - gwaith ieuenctid
    - addysg ddatblygu
    - dysgu oedolion yn y gymuned
    - dysgu teuluol
    - addysg gymunedol

Ni yw'r corff sy'n rhychwantu'r DU sy'n gyfrifol am ddiffinio a datblygu safonau galwedigaethol y Sector Dysgu Gydol Oes a Strategaeth Gymwysterau'r Sector. Defnyddir y safonau hyn i lywio recriwtio a datblygiad proffesiynol staff ein cyflogwyr.

Ymateb i'r *Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng Nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith.*

Pa welliannau, yng nghyd-destun uchelgeisiau uchel ond cyllideb gyfyngedig, fyddai'n sicrhau orau darpariaeth addysg, dysgu a hyfforddiant ôl-14 o ansawdd uchel, sy'n addas at y diben?

Cred LLUK mai cenhadaeth a phwrpas y System AB yw:

Rhoi i unigolion, ym mhob rhan o'r gymuned/gymdeithas, y cymysgedd presennol o sgiliau ynghyd â'r awydd hirdymor i gychwyn ar gontinwwm dysgu (yn anffurfiol ac yn ffurfiol) gydol eu hoes a fydd gyda'i gilydd yn eu cefnogi drwy gydol eu bywydau, gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt sy'n eu galluogi i:

- ***gael cyflogaeth (ar unwaith yn fyrdymor)***
- ***aros mewn cyflogaeth (dysgu gydol oes)***
- ***bod yn ddefnyddwyr deallus***
- ***bod yn unigolion, yn rhieni ac yn ddinasyddion gwybodus a chraff sy'n gwneud cyfraniad***

Mae LLUK yn croesawu'r ffaith bod cwmpas yr Adolygiad yn ehangach na cholegau AB ac yn cydnabod y rolau penodol y mae pob un o'r etholaethau Dysgu Gydol Oes gwahanol yn ei chwarae i gefnogi'r agenda sgiliau.

Edrychwn ymlaen at weld un o ganlyniadau allweddol yr adolygiad sef datgan ***cenhadaeth strategol*** ddiffiniedig a blaenoriaethu argymhellion am gyfeiriad addysg, dysgu a hyfforddiant ôl-14 yn y dyfodol, o'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS).

Cred LLUK fod y gwahanol etholaethau o fewn y system addysg bellach yn ceisio cyrraedd dysgwyr ar lefelau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol:

- ***Colegau Addysg Bellach***: Y 23 o golegau AB a'r 2 sefydliad AU yw prif gyflwynwyr cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yng Nghymru.
- ***Dysgu Seiliedig ar Waith***: Mae DSW yn asesu a/neu'n cyflwyno rhaglenni galwedigaethol yn aml yng ngweithle'r cyflogwr. Mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan ddarparwyr preifat, darparwyr a ariennir yn gyhoeddus, colegau addysg bellach, ac addysg uwch.
- ***Dysgu a Datblygu Cymunedol:*** Mae'r swyddogaethau hanfodol sy'n cael eu cyflawni gan 7 elfen Dysgu a Datblygu Cymunedol yn yr agenda dysgu a sgiliau yn cael eu cofnodi yn Atodiad 1.
- ***Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth:*** Yn cynnig llwybr hawdd mynd ato, di-dâl a chefnogol ar gyfer dysgu anffurfiol/ffurfiol sy'n cefnogi astudio sy'n digwydd ym mhob agwedd arall ar y Sector Dysgu Gydol Oes. Mae ganddynt rôl mewn cynyddu mynediad i ddysgu yn y gymuned a darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Llwyddodd 'Rhwydwaith y Bobl' i ehangu defnydd TGCh ledled Cymru drwy hyfforddi staff llyfrgelloedd yn y sgiliau i gefnogi'r cyhoedd.

- ***Addysg Uwch (mewn perthynas â'r System AB):*** Yn gynyddol mae AB yn dod yn sianel gyflwyno gydnabyddedig ar gyfer cymwysterau sydd wedi eu dylunio a'u hachredu ar gyfer AU – mae gan hyn oblygiadau ar gyfer sgiliau derbyniol ymarferwyr cyflwyno dysgu. Gall enghreifftiau o'r berthynas hon gael eu gweld yn system yr Alban lle mae colegau AB bellach yn cael eu galw'n Golegau'r Alban oherwydd y lefelau uchel o raglenni AU maent yn eu cyflwyno. Mae gan y bartneriaeth strategol hon oblygiadau pwysig ar gyfer yr agenda ehangu cyfranogiad, a chyflawni'r targedau lefel 4 a osodwyd gan Leitch. Hefyd mae AU yn chwarae rôl mewn 'hyfforddi'r' athrawon/tiwtoriaid/hyfforddwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y System AB.

Anghenion gwybodaeth a sgiliau'r economi/cymdeithas yn y dyfodol a gallu Dysgwyr - Darparwyr (presennol a dyfodol) i ymateb i anghenion cyflogwyr, cymdeithasol, economaidd ac anghenion dysgwyr;

Bydd y ***Broses Cytundebau Sgiliau Sector*** sy'n cael ei chynnal gan bob un o'r 25 Cyngor Sgiliau Sector yn ***arf allweddol*** i nodi anghenion gwybodaeth a sgiliau'r economi yn y dyfodol.

O dan elfen unigryw o'r Cytundebau dan y teitl ***'Adolygiad Effaith'*** bu gan LLUK y dasg o adolygu'r cytundebau sydd wedi eu datblygu gan y 24 CSS arall er mwyn adnabod y cyflenwad dysgu y rhagwelir y bydd ei angen i fodloni anghenion holl sectorau eraill yr economi.

Gyda'r wybodaeth hon, mae LLUK yn argymell pan fydd arian yn cael ei dargedu'n benodol at ddatblygu lleoedd hyfforddiant (fel yn yr Asesiad Dysgu a Sgiliau Blynyddol 06-09 diweddar lle rhoddwyd blaenoriaeth i 40,000 o leoedd ar y rhaglen E-Sgiliau ITQ) y dylai fod cyfrifiad cyfatebol (a dyraniad arian) i gefnogi'r codiad angenrheidiol yn nifer yr ymarferwyr sy'n gallu cyflwyno'r agenda dan sylw.

Mae angen cydnabod/proffilio/hyrwyddo'r ***rôl sylfaenol*** mae'r Sector Dysgu Gydol Oes yn ei chyflawni i bob sector arall o'r economi er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth ddyledus ar gyfer rôl y sector wrth gyflawni ***twf economaidd*** i Gymru.

Demograffeg. Yn ei adroddiad 'Prosperity for All in the Global Economy: Final Report', mae'r Arglwydd Sandy Leitch yn cadarnhau bod mwy na 70% o weithlu 2020 yn y DU eisoes wedi cwblhau addysg orfodol. Bydd sgiliau pedagogaidd/andragogaidd ymgysylltu â gweithwyr hŷn a'u cefnogi yn dod yn fwyfwy hanfodol. (Angen DDC)

Mae ***gweithwyr mudol*** a'r rôl gynyddol hanfodol maent yn ei chwarae yn ein heconomi yn golygu bod angen cydnabod eu hanghenion dysgu nhw e.e. manteision darparu Saesneg lefel uchel (ESOL+) a chyfnod ymgynefino i grefftwyr neu weithwyr proffesiynol sgiliedig. (Angen DPP)

Technoleg Mae'r ffordd y mae pobl yn dysgu wedi newid yn aruthrol yn ystod y 10+ mlynedd diwethaf. Er mwyn cyflawni'r targedau heriol a amlinellwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, neu'r targedau uwch a bennwyd gan yr Arglwydd Leitch, bydd rhaid i ddarparwyr edrych ar ffyrdd newydd o gyflwyno dysgu sy'n cymryd i ystyriaeth y cyfleoedd (a'r arbedion cost) sy'n cael eu cynnig gan ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn manteisio i'r eithaf ar dechnoleg, bydd angen buddsoddi ar unwaith yn y tymor byr mewn adnoddau a sgiliau.

Dysgu Galwedigaethol: Wrth i ni geisio cydbwyso cyflwyno dysgu ar seiliau Academaidd a Galwedigaethol, mae angen cefnogi staff mewn amrywiaeth o ffyrdd i'w galluogi i gyflwyno arbenigeddau galwedigaethol a chynnal arbenigedd galwedigaethol cyfredol. (Angen DPP).

Disgwyliadau Dysgwyr o ran Ansawdd. Wrth i fecanweithiau ariannu newid ac wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar unigolion/cyflogwyr i gyllido cyfrannau cynyddol o'u costau dysgu eu hun, ac os bydd Tîm yr Adolygiad yn cytuno bod yr etholaethau gwahanol yn ceisio cyrraedd dysgwyr gwahanol ar lefelau gwahanol o ddysgu, casgliad pellach fyddai y ***dylai'r dysgwr allu disgwyl ansawdd gofynnol yn yr addysg a gyflwynir***, sut bynnag maent yn mynd at y dysgu hwnnw. Cred LLUK fod ***lefel ofynnol gytûn o 'hyfforddiant sefydlu' mewn cymhwysedd wrth gyflwyno dysgu*** yn hanfodol ar draws pob etholaeth, yn enwedig os bydd cyflwyno'r dysgu yn cael ei ariannu ag arian cyhoeddus.

Mae angen i ddatblygiad gweithlu staff newydd (cynefino) a staff presennol (DPP) adlewyrchu'r anghenion hyn – ac mae angen adolygu'n safonau beincnod yn y meysydd hyn yn rheolaidd.

I ba raddau mae darpariaeth yn system gydlynus o ddewisiadau a chyfleoedd, ac yn cael ei deall felly'n rhwydd gan ddarpar ddefnyddwyr

Nododd yr Arglwydd Leitch ddrysfa o ryw 22,000 o gymwysterau gwahanol i gefnogi anghenion Dysgwyr yn y DU. Beirniadodd Leitch y ffigur hwn ac awgrymodd y dylai'r amrediad hwn o

gymwysterau gael ei leihau'n sylweddol erbyn 2010. Mae'n awgrymu y dylai'r agenda hon gael ei gyrru yn ei blaen gan CSSau, gan symleiddio drwy hynny y dewis i ddysgwyr a'r galwadau ar wasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Gan godi o ddatblygiad Cyfnod 2 o'n Cytundeb Sgiliau Sector – ***Deall Cyflenwad*** – mae LLUK wedi mapio/nodi'r ddarpariaeth ddysgu bresennol wedi ei thargedu at weithlu ein sector ni (ar lefel y DU ac ar lefel Cymru). Bydd cynlluniau gweithredu o ganlyniad i'r gwaith hwn yn caniatáu i ni dargedu dyblygiadau ac ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth yng Nghymru. Mae pob CSS wedi ymgymryd â'r gweithgarwch hwn ar gyfer y sectorau maent hwy yn eu cynrychioli.

Er ei fod o fewn cyd-destun datganoli, mae LLUK o'r farn ei bod yn hanfodol gweld diwygio cymwysterau fel rhan o agenda i'r DU gyfan sy'n cael ei gyrru gan ofynion cyflogwyr a marchnad lafur y DU, am fod gan lawer o sectorau safonau perfformiad galwedigaethol /rheoleiddio/ neu drwydded i ymarfer sy'n rhychwantu'r DU gyfan.

Hyfforddwr Dysgu: Mae LLUK yn gweithio gydag AADGOS i sicrhau bod lefelau priodol o gymwysterau i gefnogi'r rôl hon. Fodd bynnag, mae gan LLUK bryderon o hyd ynghylch gallu'r system yng Nghymru i ymgorffori'n llawn yr ethos mae cysyniad yr Hyfforddwr Dysgu yn ceisio ei gyflawni. Yn ymarferol, mae tystiolaeth anecdotaidd o gyflogwyr o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes yn awgrymu bod rôl Hyfforddwr Dysgu (yn enwedig yn ystod y cyfnodau Peilot) yn ôl pob golwg yn cael ei dyrannu i unigolion ar ben cyfrifoldebau arferol eu swydd ac mewn rhai achosion bod cyfyngiadau amser felly'n atal yr unigolyn rhag cyflawni rôl Hyfforddwr Dysgu yn effeithiol.

I gefnogi Gyrfa Cymru Ar-lein sy'n hynod lwyddiannus, byddai LLUK yn annog yr Adolygiad AB i edrych ar ***byrth IAG ar-lein*** eraill, fel www.iviva.com sy'n cynnwys offer proffilio mewn perthynas â gyrfa, mynediad i bob cwrs sydd ar gael yn y DU a gwasanaeth I-Portfolio unigryw.

Anghenion gweithlu darparwyr a'r cymwyseddau a sgiliau mae eu hangen ar ymarferwyr:

Datblygu'r Gweithlu: Rôl LLUK

Nodi Anghenion Presennol Datblygu'r Gweithlu ac Anghenion y Dyfodol:

Rydym yn croesawu'r weledigaeth am athrawon/tiwtoriaid/hyfforddwyr i Gymru sy'n gallu gweithio ar draws pynciau/cyfnodau/lleoliadau. Byddem yn annog LlCC i dynnu ynghyd yr argymhellion o adolygiad Furlong o Addysg Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i Ysgolion a safonau galwedigaethol diwygio Addysg Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (Dysgu a Sgiliau) y mae LLUK wrthi'n ei gynnal ar ran AADGOS, er mwyn caniatáu cynllunio effeithiol Datblygu'r Gweithlu i ddarparu adnoddau digonol i'r sector Addysg, Hyfforddiant a Dysgu ôl-14.

Er ei bod y tu allan i'n cylch gwaith craidd/a ariennir, oherwydd natur gydlynus yr holl Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru, cydnabu LLUK y manteision i'r ddwy ochr o weithio mewn partneriaeth â'r Adran Ymarferwyr (AADGOS) a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i sicrhau bod synergedd rhwng agendâu datblygu'r gweithlu ar gyfer ysgolion ac ôl-14, gyda chyfeiriad arbennig at ehangu'r agenda 14-19.

Lle ceir cymhellion polisi penodol (e.e. sgiliau sylfaenol, sectorau sy'n bwysig yn economaidd, rôl Hyfforddwr Dysgu, yr iaith Gymraeg, addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang) byddem yn croesawu gweithio gydag AADGOS i sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael eu recriwtio a/neu eu datblygu i weithredu'r polisïau'n effeithiol.

Mae angen cydnabod y **Cytundeb Sgiliau Sector** ar gyfer y Sector Dysgu Gydol Oes fel adnodd a chyfle allweddol. Bydd hwn yn casglu data a thystiolaeth benodol ar sylfaen sgiliau bresennol a dyfodol y gweithlu yng Nghymru er mwyn amlygu anghenion sydd wedi eu henwi a bylchau data'r system. Wrth fapio hyn yn erbyn y ddarpariaeth ddysgu bresennol, bydd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Sector yn cael ei datblygu gydag argymhellion am anghenion ymchwil pellach. Mae coladu Gwybodaeth gywir am y Farchnad Lafur yn rhan bwysig o gynllunio datblygu'r gweithlu yn gywir, ond mae'n llawn anawsterau oherwydd nifer y rhanddeiliaid gwahanol sydd i gyd yn gweithio ar agendâu ychydig yn wahanol ac o fewn cyllidebau cyfyngedig. Byddai LLUK yn annog ymagwedd fwy cyfannol at bennu a chasglu data yng Nghymru, sy'n gosod anghenion proses y Cytundeb

Sgiliau Sector yn y canol. Mae LLUK wedi sefydlu cytundeb ag Adran Bolisi Gwaith Ieuenctid AADGOS sy'n golygu y bydd LLUK yn ysgrifennu cwestiynau cyflogwyr Datblygu'r Gweithlu ynghylch gwybodaeth am y farchnad lafur i fynd i mewn i Archwiliad Gwaith Ieuenctid AADGOS. Mae'r Adran Bolisi Gwaith Ieuenctid yn ymarferol yn casglu gwybodaeth yn ôl ein cais ni, ac rydym yn dadansoddi'r wybodaeth sy'n dod i law i gyfrannu at ein Proses Cytundeb Sgiliau Sector ac yn rhannu'r data a'r dadansoddiad â'r Adran Bolisi Gwaith Ieuenctid. Mae hwn yn fodel partneriaeth da – ond ni ddylai gael ei ddehongli fel dewis 'dim cost', gan fod angen i gyfraniad LLUK at y broses hon dderbyn arian.

Byddai LLUK yn croesawu'r cyfle i rannu copïau o'n Hadroddiadau Cyfnodau'r Cytundeb Sgiliau Sector i Gymru â Thîm Ymchwil yr Adolygiad AB, wrth iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod yr adolygiad. Yn dilyn ein tystiolaeth lafar i'r panel ar 27 Mawrth, byddwn yn rhannu dogfen amserlen a chanlyniadau â thîm yr Adolygiad. Ein gobaith yw y bydd hyn yn caniatáu i'r Tîm Ymchwil fanteisio ar ein gwaith ac adeiladu arno, ***gan sicrhau felly, gobeithio, fwy o fantais i'r ddwy ochr.***

Pennu Safonau Perfformiad i'r Gweithlu:

LLUK yw'r corff sy'n gosod safonau galwedigaethol ar gyfer cyflogwyr o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes. Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn arf rhagorol i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer amrywiaeth o wahanol anghenion cyflogwyr (gan gynnwys recriwtio, manylebau rôl, arweiniad i hyfforddiant a datblygiad, ac ati) yn ogystal â bod yn sylfaen datblygu cymwysterau sy'n gysylltiedig yn agos â'r galw o du cyflogwyr ledled y DU. Bydd angen i unrhyw gorff arall sy'n dymuno datblygu safonau yn y maes hwn gydweithio'n agos â ni.

Wrth gyfeirio at y cwricwlwm a gynigir gan y System AB yn y dyfodol, byddai LLUK yn annog tîm yr adolygiad i gyfeirio at bwysigrwydd **cymwysterau sy'n seiliedig ar safonau**.

Strategaeth Cymwysterau Sector:

Mae gan Gymru gyfle unigryw i sicrhau bod llwybrau gyrfa hyblyg ar draws pob sector addysg a hyfforddiant ar gael, gan recriwtio/cadw'r goreuon o bob oedran/cefndir, i adael iddi gael felly gweithlu o'r radd flaenaf ac ochr gyflenwi sydd mewn sefyllfa dda i fodloni anghenion cyflogwyr a chymunedau Cymru.

Yn sgîl ein Cytundeb, bydd LLUK yn datblygu ein ***Strategaeth Cymwysterau Sector (SCS)*** a fydd yn cefnogi ***fframwaith cymwysterau*** cydlynus (sy'n cyd-fynd â fframweithiau eraill ledled y DU i gefnogi symudedd y farchnad lafur). Yn y dyfodol, rhaid i ddatblygiad cymwysterau gefnogi amrywiaeth o lwybrau at ddysgu a datblygiad proffesiynol, gan gynnwys defnydd technolegau newydd, fel y bo'n briodol, i gynyddu mynediad a chyflwyno dysgu mewn modd cost-effeithiol.

Mae LLUK yn awgrymu bod dyluniad cymwysterau'n cael ei ***ddilysu*** er mwyn ***cynnal safonau***. www.lifelonglearninguk.org/**svuk**

Cynefino: Mae lefel 'gynefino' ofynnol gytûn o gymhwysedd wrth gyflwyno dysgu yn hanfodol ar draws pob etholaeth, yn enwedig os bydd cyflwyno dysgu'n cael ei ariannu o arian cyhoeddus. I gydnabod y ffaith bod llawer o diwtoriaid yn dod i mewn i'r Sector Dysgu Gydol Oes yn dilyn gyrfa flaenorol mewn diwydiant arall, cred LLUK y dylai'r SCS gynnwys cymhwyster ar sail blociau adeiladu credydau, sydd ar gael i ddarpar diwtoriaid ymgymryd ag ef naill ai fel llwybr cyn gwasanaeth neu fel rhan orfodol o gynefino er mwyn sicrhau bod lefel sylfaenol o gymhwysedd wedi cael ei hennill cyn i'r unigolyn ddod i mewn i unrhyw fath o amgylchedd dosbarth.

Trwydded i Ymarfer a Chofrestru: Mae ***Trwydded i Ymarfer*** a ***Chofrestru*** yn offer hanfodol er mwyn sicrhau bod gweithio yn y Sector Dysgu Gydol Oes (ar bob lefel) yn yrfa sy'n cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi – sy'n rhan bwysig o allu denu recriwtiaid o safon dda. Mater i'r gweithwyr proffesiynol/cyflogwyr/AADGOS ei gytuno yw penderfynu ar ba lefel y caiff *Trwydded i Ymarfer* ei gosod.

Fel rhan o'r SCS, mae LLUK yn dymuno cael cytundeb i adeiladu ar awgrymiadau am

gymhwyster mynediad lefel gynefino, a thrwy gyfrwng modiwlau dewisol seiliedig ar gredydau, alluogi'r dysgwr i adeiladu tuag at gymhwyster llawn a gydnabyddir yn broffesiynol sy'n cael ei deilwra i'r rôl maen nhw'n ei chyflawni o fewn eu hetholaeth benodol. Byddem yn disgwyl creu cydnabyddiaeth gilyddol o fodiwlau generig ar draws y Sector Dysgu Gydol Oes.
Byddai LLUK yn croesawu'n fawr iawn datblygiad ***corff datblygu proffesiynol*** ar gyfer holl system AB, sy'n sicrhau cysondeb safonau, ac yn lledu hyblygrwydd defnydd y farchnad lafur o fewn y sector (yng Nghymru). Dylai fod yn gysylltiedig yn agos â chyrff cysylltiedig yng ngweddill y DU (defnydd y Farchnad Lafur ledled y DU) a, maes o law, Ewrop. Ochr yn ochr ag opsiynau eraill, byddem yn argymell bod Tîm yr Adolygiad AB yn edrych ar y ***Sefydliad Dysgu (IfL)***, sy'n gorff aelodaeth proffesiynol sefydledig ar gyfer y sector yn Lloegr, a chanddo aelodaeth gynyddol yng Nghymru. Cafodd yr IfL ei ddatblygu gan LLUK ar y cyd â chyflogwyr.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus: Yn gysylltiedig â gofynion corff proffesiynol, mae angen i'r sector bennu strategaeth CPP dderbyniol/ofodol ar gyfer ymarferwyr proffesiynol, a ategir gan gontract, i weithwyr rhan-amser yn ogystal â staff amser llawn, ac yn dwyn hawliau cymaradwy. Ymhlith yr ystyriaethau DPP hanfodol sy'n effeithio ar y sector ar hyn o bryd y mae ymateb i anghenion cyflwyno cymwysterau galwedigaethol (e.e. cynlluniau Darlithwyr i mewn i Ddiwydiant), ymateb i'r Dechnoleg Dysgu Gwybodaeth (ILT) newydd, a gwella sgiliau pedagogaidd/andragogaidd cyffredinol gan gynnwys cyflwyniad sgiliau sylfaenol/allweddol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth: sy'n fater hollbwysig. Yn benodol mae ar ein gweithlu yng Nghymru angen strwythurau galluogi i gefnogi eu harweinwyr a rheolwyr wrth ymateb i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Gan fod disgwyl yn gynyddol i benaethiaid feddu ar gymhwyster perthnasol, a bydd hyn yn wir hefyd am Brifathrawon Colegau yn Lloegr cyn hir, mae angen ymchwilio i sefyllfa gilyddol i Gymru, oherwydd y goblygiadau ar gyfer symudedd yn y farchnad lafur ledled y DU yn arbennig mewn galwedigaethau ar y lefel hon (o ganlyniad i nifer is o rolau ledled y DU). Ar sail Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Rheolaeth ac Arweinyddiaeth LLUK, mae Prifysgol Cymru Casnewydd yn cynnig MA mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (AB) hynod boblogaidd - gallai hwn gael ei ystyried yn opsiwn.

Hybu Gyrfaoedd a Strategaethau Recriwtio, er mwyn ***ehangu'r gronfa recriwtio*** yn gynyddol ar lefel fynediad a rolau rheoli/arwain fel ei gilydd, sy'n dibynnu ar y system AB yn cael mynediad i ddoniau pobl rhagorol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau/cyflogwyr maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae rhaglenni rheoli dawn sy'n targedu grwpiau penodol a dangynrychiolir wedi cael effeithiau cadarnhaol iawn ar gyfraddau llwyddiant dysgwyr.

Ym mharagraff 35, mae Adolygiad Furlong o'r ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (Ysgolion) yn nodi cost hyrwyddo addysgu fel dewis gyrfa yng Nghymru fel rhyw £1miliwn y flwyddyn. Yng nghyd-destun gor-gynhyrchu athrawon ysgol (oherwydd effaith poblogaeth sy'n heneiddio), galwodd tîm adolygiad Furlong am ailgyfeirio'r adnoddau i ymdrin â meysydd lle mae prinderau. Byddai LLUK yn awgrymu y dylai rhywfaint o'r ***cyllid hwn***, yn unol â'r ddemograffeg newidiol, gael ei ***gyfeirio*** i mewn i ***hyrwyddo addysgu fel gyrfa yn y sector ôl-orfodol***, yn enwedig felly o ran:

- ymdrin ag amrywiaeth y gweithlu mewn perthynas â phoblogaeth ehangach Cymru
- dod ag arbenigwyr pwnc (galwedigaethol) i mewn i gefnogi anghenion cynyddol cynyddu llwybrau galwedigaethol pwysig (LLUK/DfES – ymgyrch Rhowch rywbeth yn ôl)

Cyfleoedd/Bygythiadau o Loegr

O ganlyniad i athreiddedd ffin Cymru/Lloegr o ran symudedd y farchnad lafur, byddai LLUK yn annog yr Adolygiad i ddeall y ***cyfleoedd a'r bygythiadau i'r gweithlu yng Nghymru*** sy'n dod i'r amlwg o Adolygiad Foster /y Papur Gwyn AB. Mae crynodeb o rôl gyflwyno allweddol LLUK ar gyfer y papur gwyn AB yn Lloegr yn cael ei gyflwyno fel papur ar wahân.

Datblygu dwyieithrwydd a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae ymchwil ar gyfer ein Cytundeb Sgiliau Sector wedi amlygu bod tua 50% o gyflogwyr y Sector Dysgu Gydol Oes yn mynegi lefelau cyffredinol o anfoddhad ar sgiliau cyfrwng Cymraeg staff. Rydym yn ymwybodol bod cyfres o ymyriadau ar waith:

- Mae Addysg Uwch Cymru (AUC) a'r ganolfan addysgu a datblygu Cymraeg (Prifysgol Cymru) wedi eu hariannu gan CCAUC yn gweithio i gefnogi Grŵp y Sector AU am addysgu Cymraeg a dwyieithog, ac yn gweithio'n strategol ar gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, ymchwil i'r galw gan fyfyrwyr a marchnata (cydrannu adnoddau), galw am gyrsiau (cydweithredu ar ddarpariaeth) a staffio (sefydlu cronfa ddata o staff cofrestredig), ac
- Er, o fewn AADGOS, mae'r tîm galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn hanesyddol wedi canolbwyntio mwy ar y sector AB (wedi eu sefydlu yn ELWa), hyd y deallwn, maent wedi bod yn gwneud gwaith tebyg.

Fel y mae'n Cytundeb wedi tanlinellu, mae hwn yn fater sy'n gyffredin i'r sector cyfan, a byddai LLUK yn annog Tîm yr Adolygiad i ystyried y cysyniad o Ganolfan Ragoriaeth mewn cyflwyno addysg yn ddwyieithog ac yn y Gymraeg (sy'n croesawu mewnbwn o bob etholaeth ac yn cefnogi pob un). Mae'n bosibl mai awgrym ar gyfer Cynllun Gweithredu Cytundeb Sgiliau Sector LLUK yw hwn. Yn y cyfamser, bydd LLUK yn cynnwys gwaith ar gyflwyno dysgu Cymraeg/dwyieithog yn ein gwaith ar ddatblygu safonau galwedigaethol.

Y defnydd gorau ar adnoddau prin

Mae LLUK wedi nodi'r angen i weithio ar lefel strategol ag AADGOS i sicrhau nad yw gweithredu agenda gyffredin yn dyblygu gwaith wrth symud ymlaen, yn enwedig ym meysydd:

- Ymchwil (gan gynnwys astudiaethau ansoddol yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur),
- Cynllunio datblygiad y gweithlu,
- Datblygu safonau ymarferwyr, a
- Datblygu Strategaeth Cymwysterau Sector

Byddai unrhyw atgyfnerthiad/cefnogaeth y gall Tîm yr Adolygiad eu cynnig i LLUK yn hyn o beth yn ddefnyddiol.

Crynodeb o Brif Argymhellion/Ceisiadau LLUK:

- Bydd LLUK yn croesawu'n wresog datganiad ***Cenhadaeth Strategol*** sy'n cynnig cyfeiriad clir gyda blaenoriaethau ar gyfer y sector.
- Bydd cydnabyddiaeth o'r ddemograffeg newidiol a'r disgwyliadau cynyddol sydd ar addysg, dysgu a hyfforddiant ôl-14 fel y'u tanlinellwyd gan Leitch yn arwain at ail-alinio angenrheidiol sut mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y System AB i sicrhau y gall y System AB ddiwallu heriau'r dyfodol.
- Mae angen cydnabod/proffilio/hyrwyddo'r ***rôl gydategol*** mae'r Sector Dysgu Gydol Oes yn ei chyflawni ar gyfer pob sector arall o'r economi er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth ddyledus o rôl y sector mewn cyflawni ***twf economaidd*** i Gymru.
- Mae LLUK yn dymuno gweld cydnabod ***cydraddoldeb o ran parch proffesiynol*** ar draws yr etholaethau.
- Byddai LLUK yn argymell bod Tîm yr Adolygiad yn ***cydnabod rôl Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth*** (a'r gweithgarwch cysylltiedig wrth gynllunio datblygiad y gweithlu) o fewn y gweithlu Dysgu Gydol Oes.
- Er mwyn i Gymru barhau â'r Asesiad Dysgu a Sgiliau Blynyddol, a'r awgrymiadau o ran ***meysydd cyflwyno sy'n flaenoriaeth***, rhaid i'r system gynllunio a chyllido ***ganiatáu ar gyfer***

datblygiad cysylltiedig y Gweithlu Dysgu Gydol Oes a modelau o allu/ariannu o oblygiadau newidiadau mewn blaenoriaethau.

- Rhaid i'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o ***broses Cytundeb Sgiliau Sector LLUK*** a'r ***Adolygiad Effaith*** fod yn rhan hanfodol o unrhyw ***Gynllunio Datblygiad y Gweithlu*** a ddyfeisir ar gyfer y sector yn y dyfodol.
- Mae angen i ddatblygiad gweithlu staff newydd (cynefino) a staff presennol (DPP) adlewyrchu anghenion sgiliau newidiol dysgwyr/economi/cymdeithas.
- Mae LLUK yn argymell y dylai fod ***lefel ofynnol o gymhwysedd cynefino*** ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am gyflwyno dysgu ***ar draws pob etholaeth.***
- Hoffai LLUK i Dîm yr Adolygiad broffilio rôl LLUK mewn datblygu ***Strategaeth Cymwysterau Sector newydd a symlach*** (sy'n cymryd i ystyriaeth symudedd marchnad lafur y DU) ar gyfer y Sector Dysgu Gydol Oes, gan gynnwys:
    - Cymhwyster ar sail blociau adeiladu credydau, sydd ar gael i ddarpar diwtoriaid ymgymryd ag ef naill ai fel llwybr ***cyn gwasanaeth neu fel rhan orfodol o gynefino*** er mwyn sicrhau bod lefel sylfaenol o gymhwysedd wedi cael ei hennill cyn i'r unigolyn ddod i mewn i unrhyw fath o amgylchedd dosbarth.
    - Cytuno i adeiladu ar gymhwyster mynediad lefel gynefino, a thrwy fodiwlau dewisol seiliedig ar gredydau, gan alluogi'r dysgwr i ***adeiladu at gymhwyster a gydnabyddir yn llawn yn broffesiynol*** sy'n cael eu teilwra i'w rôl o fewn eu hetholaeth benodol.
    - Cymwysterau yn cael eu ***dilysu*** i ***gynnal safonau*** yn briodol. www.lifelonglearninguk.org/**svuk**
    - Mae ***Trwydded i Ymarfer*** a ***Chofrestru*** yn arfau hanfodol
    - Datblygiad ***corff datblygu proffesiynol*** i'r holl system AB
    - Cyflwyno ***Strategaeth DPP orfodol*** wedi ei hategu gan ofynion contractiol ar gyfer ***staff rhan amser yn ogystal â staff amser llawn***
    - Ystyried gofynion ***Cymwysterau Arweinyddiaeth a Rheolaeth*** yn llawn
- Wrth gyfeirio at ***gynnig y cwricwlwm*** yn y dyfodol***,*** cyfeirio at bwysigrwydd **cymwysterau seiliedig ar safonau**, ar gyfer pob sector.
- Ystyried defnydd ***pyrth ar-lein*** gwell i ddatblygu gwasanaeth ***IAG Ar-lein*** Gyrfa Cymru, i gefnogi rôl Hyfforddwr Dysgu.
- ***Ailddosbarthu arian sydd dros ben*** a nodir gan ***Adolygiad Furlong*** tuag at ddatblygu ymgyrchoedd recriwtio priodol i gefnogi anghenion ehangach cyflogwyr yn y System AB.
- Ystyried yr arbedion graddfa posibl a ddaw o ***Ganolfan Ragoriaeth mewn cyflwyno dysgu dwyieithog a Chymraeg***.
- Tynnu sylw at arbedion graddfa posibl a ddaw o ***fwy o eglurdeb rolau*** rhwng ***LLUK*** ac agweddau ar weithgarwch ***AADGOS***.
- Byddai'n rhaid i LLUK fod yn rhan o'r ***Cynlluniau Gweithredu*** sy'n effeithio ar weithgarwch datblygu'r gweithlu yn y dyfodol.
- Bod Tîm yr Adolygiad yn cymryd i ystyriaeth y ***'Cyfleoedd a Bygythiadau'*** y bydd Foster a'r Papur Gwyn AB yn Lloegr yn dod â nhw i'r sector yng Nghymru.
- Fel partneriaid strategol pwysig mewn addysg, dysgu a hyfforddiant ôl-14***, bod adnoddau'n cael eu dyrannu i CSSau yng Nghymru yn unol â'r cylch gwaith a'r disgwyliadau a roddir iddynt***.

Cwmni cyfyngedig drwy warant **Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr** Rhif 5155002

Atodiad 1 – Ôl-troed Dysgu a Datblygu Cymunedol

Mae **dysgu oedolion yn y gymuned** yn cynnwys pob person ifanc ac oedolyn ac yn digwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'n chwarae rôl fawr mewn adeiladu cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi adfywiad sifil. Gall y rhai a gyflogir yn y maes hwn weithio wyneb i wyneb, ac mae eu rôl yn cynnwys arwain dysgu drwy addysgu neu diwtora, cefnogi dysgu drwy diwtora, darparu arweiniad a hwyluso dysgu.

Mae **gwaith datblygu cymunedol** yn rhagdybio bod cyfoeth o wybodaeth a phrofiad o fewn unrhyw gymuned sydd, o'u defnyddio'n greadigol, yn arwain at lefelau o gyfranogiad ac yn gallu cael eu sianelu i mewn i weithgarwch cyfunol i gyflawni dyheadau'r gymuned. Mae gweithwyr datblygu cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â phobl mewn cymunedau i feithrin cysylltiadau â phobl a grwpiau allweddol, hwyluso nodi pryderon cyffredin a helpu i greu grwpiau ymreolaethol. Drwy alluogi pobl i weithredu gyda'i gilydd, mae gweithwyr datblygu cymunedol yn helpu i feithrin cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb.

Mae **addysg gymunedol** yn ymgorffori'r ystod o anghenion dysgu gydol oes gydag ymagwedd gyffredin rhwng gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, a darparu cymorth addysgol gyda datblygiad cymunedol. Mae ei phwyslais ar ddarparu cymorth dysgu a datblygu cymunedol i unigolion a grwpiau ar sail anghenion ac ystyriaethau sydd wedi eu nodi.

Gall **addysg ddatblygu** gael ei diffinio fel Dysgu Gydol Oes sydd: yn caniatáu i bobl ddeall y cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hun a bywydau pobl ledled y byd; yn cynyddu dealltwriaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n siapio ein bywydau; yn datblygu'r sgiliau, agweddau a gwerthoedd sy'n galluogi i bobl i gydweithio wrth gymryd camau i greu newid a chymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hun; yn gweithio tuag at gyflawni byd tecach a mwy cynaliadwy lle bydd grym ac adnoddau'n cael eu rhannu'n decach.

Mae **dysgu teuluol** yn y bôn yn ddysgu sy'n digwydd mewn cyd-destun 'aml-genhedlaeth'. Mae'r gwerthoedd, agweddau a diwylliant rydym yn eu dysgu gan ein teuluoedd yn gallu aros gyda ni drwy gydol ein bywydau. Mae cynlluniau dysgu teuluol yn aml yn ail gyfle i rieni, a mam-gu a thad-cu, ddychwelyd i ddysgu. Mae dysgu teuluol yn cwmpasu llythrennedd teuluol, rhifedd teuluol, TG teuluol, dosbarthiadau a gweithgareddau i deuluoedd, cyrsiau mewn magu plant fel byw gyda phlant yn eu harddegau, chwarae gyda'ch plentyn, helpu plant i ddysgu, delio ag ysgol eich plentyn, a deall am gyffuriau.

Mae **addysg magu plant** yn ymagwedd addysgol gydweithredol sy'n defnyddio cyfuniad o wybodaeth, sgiliau dysgu a magu cymorth cymheiriaid a rhwydweithiau i alluogi rhieni i ddeall eu plant a'u hanghenion yn well a theimlo'n fwy hyderus a chymwys fel rhieni. Mae'n ymagwedd sy'n berthnasol i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant ac fe all chwarae rhan werthfawr mewn cynyddu'r berthynas a sgiliau a dealltwriaeth pob un ohonom. Mae cymhlethdod y sgiliau mae eu hangen ar y rhai sy'n gweithio gyda rhieni ar ba ffurf bynnag yn amlwg, nid lleiaf wrth ystyried cyfrifoldeb mawr gwneud gwaith a fydd yn cael effaith aruthrol ar fywydau pobl.

Mae **gwaith ieuenctid** yn cynnig i bobl ifanc rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynlluniedig a digymell fel ei gilydd. Fel rhan o agenda ehangach gwaith ieuenctid 14 – 19 mae'n paratoi pobl ifanc am fywyd. Mae amrywiaeth eang o ymarfer i fodloni anghenion pobl ifanc gan gynnwys grwpiau celfyddydau a drama, cynghori, gwaith ieuenctid ar wahân neu ar y stryd, grwpiau ffydd, canolfannau gwybodaeth a chyngor, gwaith allgymorth gyda grwpiau anfanteisiol, gwaith prosiect ar faterion iechyd, darpariaeth ar sail ysgolion a cholegau, grwpiau mewn lifrai (Sgowtiaid a Guides, Unedau Cadetiaid ac ati), a grwpiau gwasanaeth gwirfoddol. Hanfod gwaith ieuenctid yw galluogi'r pontio o blentyndod i fywyd annibynnol fel oedolyn. Gan hynny mae darparu gwaith ieuenctid yn rhwydwaith cymhleth o ddarparwyr o grwpiau cymunedol drwy ddarpariaeth awdurdodau lleol i gyrff gwirfoddol.

Atodiad 2 – Aelodaeth Paneli a Grwpiau Ymgynghorol LLUK dros Gymru

Panel Gwlad Cymru LLUK

Veronica Wilson	Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Darrel Williams	Rheolwr Strategol – Gwaith Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Rob Humphreys	Cyfarwyddwr Cymru NIACE
Andrew Green	Llyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Denise Lavis	Cynghorydd Hyfforddiant a Datblygiad Cymal: Llywodraeth Cynulliad Cymru
Alan Watkin	Prif Swyddog, Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Wrecsam
Dr John Graystone	Prif Weithredwr Fforwm
Jackie Doodson	Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Safonau Coleg Llandrillo
Bryn Davies	Prifathro Coleg Ystrad Mynach
Helen James	Cyfarwyddwr Strategaeth Datblygu Addysg Uwch ac Addysg Bellach Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Russell Dennis	Uwch Gydlynydd Adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Cymru Bangor
Terry Jones	Rheolwr Gyfarwyddwr Hyfforddiant y Gogledd-Orllewin
Felicity Williams	Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru
David Hunter	Prif Weithredwr Dysgu Gydol Oes yn y DU
Michelle Sayers	Rheolwr Cenedlaethol Cymru Dysgu Gydol Oes yn y DU
Karen Jones	Cynghorydd Polisi Addysg Uwch Cymru
Shirley R Davis-Fox	Rheolwr Gyfarwyddwr I-SA Hyfforddiant

Grŵp Ymgynghorol Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymru

Veronica Wilson	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Jim Barnaville	Datblygiad Cymunedol, Cymru
Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
Lynne Hill	Plant yng Nghymru
Liz Court	Community Development Foundation
Dominic Miles	Cyfanfyd
Cerys Furlong	NIACE
Mike Hughes	Dinas a Sir Abertawe
Courtenay Taylor	Adran Gwaith Ieuenctid, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Alice Greenlees	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru